



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer deiliaid rhandiroedd

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a
Ganiateir) 1995

Tachwedd 2020

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

Cynnwys


1. Cyflwyniad	1
2. Ymatebion	2
3. Crynodeb o'r ymatebion fesul cwestiwn	3
4. Y camau nesaf	18
5. Rhestr ymatebwyr	19

1. Cyflwyniad

- 1.1 Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori 'Hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer deiliaid rhandiroedd' ar 22 Tachwedd 2019 ac roedd modd cyflwyno ymatebion iddo tan 28 Chwefror 2020. Roedd yn ceisio barn ar gynigion i ddiwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 drwy gyflwyno hawliau datblygu a ganiateir newydd ar gyfer codi strwythurau ar randiroedd.
- 1.2 Nodwyd cyfanswm o wyth cwestiwn yn y ddogfen ymgynghori, gyda ffurflen safonol, i'w dychwelyd drwy'r post neu drwy e-bost, a ffurflen we ar-lein a ddarparwyd er hwylustod.
- 1.3 Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ymateb Llywodraeth Cymru a'r camau nesaf. Fe'i rhennir yn dair adran arall.
- 1.4 Mae Adran 2 yn rhoi crynodeb ystadegol cyffredinol o'r ymgynghoriad a manylion ynglŷn â sut y cynhaliwyd yr ymgynghoriad.
- 1.5 Mae Adran 3 yn rhoi crynodeb o'r holl ymatebion a gyflwynwyd. Mae hyn yn cynnwys:
 - Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol o dan bob un o gwestiynau'r ymgynghoriad;
 - Dadansoddiad ystadegol o'r safbwyntiau a fynegwyd ar bob un o gwestiynau'r ymgynghoriad;
 - Crynodeb a dadansoddiad o'r themâu allweddol sy'n deillio o bob cwestiwn;
 - Ymateb Llywodraeth Cymru i'r dadansoddiad hwnnw;
 - Esboniad o'r hyn y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn dilyn yr ymateb i bob cwestiwn.
- 1.6 Mae Adran 4 yn nodi'r camau nesaf y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd wrth gyflwyno'r diwygiad arfaethedig i'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir.
- 1.7 Mae Adran 5 yn cynnwys rhestr o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad.

2. Ymatebion

- 2.1 Pan gyhoeddwyd y papur ymgynghori, hysbyswyd rhanddeiliaid, gan gynnwys unigolion a sefydliadau, drwy e-bost ei fod wedi'i gyhoeddi. Dewiswyd y rhain o'r rhestr ymgynghori graidd a ddelir gan Gyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru a manylion cyswllt sydd ar gael i'r cyhoedd. Roedd hyn yn cynnwys pob awdurdod lleol yng Nghymru, cyrff cyhoeddus, grwpiau buddiant arbennig a grwpiau eraill.
- 2.2 Cafwyd cyfanswm o 63 o ymatebion i'r ymgynghoriad ac mae pob un ohonynt wedi cael eu darllen a'u hystyried. Roedd yr ymatebwyr yn cynrychioli nifer o grwpiau buddiant gwahanol, gydag ychydig o dan eu hanner yn aelodau unigol. Dangosir dadansoddiad llawn o'r cynrychiolwyr isod:




- Un o Asiantaethau'r Llywodraeth/Corff Arall sy'n Rhan o'r Sector Cyhoeddus - 4 ymatebydd
- Corff Proffesiynol/Grŵp Buddiant - 14 o ymatebwyr
- Awdurdod Cynllunio Lleol - 13 o ymatebwyr
- Y Sector Gwirfoddol - 1 ymatebydd
- Unigolion Preifat - 31 o ymatebwyr

- 2.3 Mae rhestr o'r holl ymatebwyr fesul categori i'w chael yn Atodiad A i'r adroddiad hwn. Os bydd ymatebwyr wedi gofyn inni gadw unrhyw wybodaeth yn ôl, cânt eu nodi fel "Dienw" o dan y categori priodol, ac eithrio unigolion preifat, y bydd pob un ohonynt yn ymddangos fel "Dienw" er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.
- 2.4 O'r wyth cwestiwn a nodwyd yn y papur ymgynghori, roedd cwestiynau 1 i 5 yn gofyn cwestiynau penodol ynglŷn â pholisi am y cynigion. Roedd gweddill y cwestiynau yn ymwneud yn benodol â'r effeithiau (cadarnhaol neu negyddol) y gallai'r cynnig eu cael ar y Gymraeg, fel sy'n ofynnol gan Safonau'r Gymraeg sy'n ymwneud ag ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru, ac roedd hefyd gwestiwn a oedd yn gwahodd unrhyw sylwadau eraill.

3. Crynodeb o'r ymatebion fesul cwestiwn

C1. Ydych chi'n cytuno y dylid cyflwyno hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer datblygiad ar randir?

Sector	Crynodeb Ystadegol				Cyfanswm
	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Heb ateb	
Un o Asiantaethau'r Llywodraeth/Corff Arall sy'n rhan o'r Sector Cyhoeddus	3	0	0	1	4
Corff Proffesiynol/Grŵp Buddiant	14	0	0	0	14
Awdurdod Cynllunio Lleol	12	0	1	0	13
Y Sector Gwirfoddol	1	0	0	0	1
Unigolion preifat	25	5	1	0	31
Cyfanswm yr holl ymatebwyr	55	5	2	1	63



■ Cytuno ■ Anghytuno ■ Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno

Adolygiad ystadegol

3.1 O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn, roedd y mwyafrif (89% o'r rhai a atebodd) yn cytuno â'r egwyddor o gyflwyno hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer datblygiad ar randir. Cafwyd cefnogaeth gref gan bob sector.

Themâu allweddol

3.2 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 1 fel a ganlyn:

- Lleisiwyd cryn gefnogaeth i'r cynnig, heb fawr ddim sylwadau pellach.
- Cafwyd sawl ymateb a oedd yn cyfeirio at yr angen am amodau sy'n ymwneud â maint adeiladau.

- Roedd y gwahaniaeth rhwng y gofyniad i gael caniatâd cynllunio ac unrhyw ganiatâd ar wahân gan y pwyllgor neu gymdeithas rhandiroedd perthnasol yn peri dryswch i rai unigolion preifat.

Trosolwg

- 3.3 Nododd y rhai sy'n cefnogi'r cynnig fanteision prosiectau tyfu cymunedol i iechyd a'r amgylchedd. Roedd Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLIau) hefyd yn croesawu'r eglurder y byddai cyflwyno hawliau datblygu a ganiateir yn ei roi.
- 3.4 Lleisiodd y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig (5 ymatebydd) bryder y byddai rhandiroedd yn llawn adeiladau ac yn golygu bod llai o gynnyrch yn cael ei dyfu.
- 3.5 Awgrymodd rhai ymatebwyr mai gadael i gymdeithasau/pwyllgorau rhandiroedd, neu'r rhai sy'n rheoli'r rhandir, benderfynu ar reolau ynglŷn â chodi adeiladau y dylid ei wneud.
- 3.6 Nododd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ei fod o blaid cyflwyno hawliau datblygu a ganiateir, ond dim ond os gwneir newidiadau i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 er mwyn nodi bod unrhyw randir yn ddefnydd tir penodol yn y Gorchymyn. Mae ei bryderon yn ymwneud â lleoliad posibl rhandiroedd a'r effaith y gallai strwythurau dilynol ei chael ar leoliadau gweledol sensitif ac ecoleg ac o ran cynyddu nifer y symudiadau cerbydau a sŵn.

Ymateb y Llywodraeth


- 3.7 Cynigir cyfyngiadau (cwestiynau 3 a 4) ar faint a nifer yr adeiladau y gellid eu codi er mwyn sicrhau na fydd strwythurau a ganiateir yn amharu ar olwg y man tyfu nac yn effeithio arno'n ormodol.
- 3.8 At hynny, ni fydd cyflwyno hawliau datblygu a ganiateir yn effeithio ar hawliau rhandiroedd unigol i bennu eu rheolau eu hunain ynglŷn â'r math o strwythurau y gellir eu codi, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Mae caniatâd gan y pwyllgor rhandiroedd a chaniatâd cynllunio yn ddau ofyniad ar wahân. Nid yw cael caniatâd gan y pwyllgor rhandiroedd ar ei ben ei hun yn golygu nad oes angen cael caniatâd cynllunio. Mae caniatâd cynllunio yn ofyniad rheoleiddiol ar gyfer pob datblygiad, fel y'i diffinnir yn adran 55 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae'n rhaid ei gael drwy gyflwyno cais cynllunio i'r ACLI neu fe'i caniateir yn 'awtomatig' gan Orchymyn Datblygu, megis yr hawliau datblygu a ganiateir a nodir yn y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, lle bydd datblygu yn digwydd, ni fydd deiliaid rhandiroedd yn cael caniatâd cynllunio ar gyfer y strwythurau a godir ganddynt. Mae unrhyw strwythur a godir ar hyn o bryd ar randir sy'n gyfystyr â datblygiad, ond nad oes ganddo ganiatâd cynllunio, yn anghyfreithlon a gallai fod yn destun camau gorfodi gan yr ACLI.
- 3.9 Byddai cyflwyno hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer datblygiad o faint/math penodol yn dileu'r gofyniad i gael caniatâd cynllunio gan yr ACLI. Bydd yn darparu ffordd bragmataidd ymlaen ar gyfer safleoedd rhandiroedd drwy sefydlu caniatâd cynllunio cenedlaethol, gan ddileu'r angen i bob deiliad rhandir geisio caniatâd gan yr ACLI ar gyfer datblygiad ar ei lain unigol ei hun, ar yr amod bod y datblygiad o faint a ganiateir gan yr hawliau datblygu a ganiateir arfaethedig. Efallai y bydd angen cael caniatâd y

pwyllgor rhandiroedd perthnasol neu'r sawl sy'n rheoli'r safle o hyd os bydd hynny'n rhan o delerau prydles y llain.

- 3.10 O ran y sylw a wnaed ynghylch Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987, prif swyddogaeth rhandir yw garddwriaeth a thyfu cynnyrch. Sefydlwyd yn y Llysoedd fod y cyfryw ddefnydd yn dod o dan y diffiniad o 'amaethyddiaeth'. Mae Adran 55(2)(e) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn nodi'n glir nad yw defnyddio unrhyw dir at ddibenion 'amaethyddiaeth' yn gyfystyr â datblygiad at ddibenion y ddeddf honno. Felly, byddai unrhyw ymgais i wahaniaethu rhwng defnydd fel rhandir ac 'amaethyddiaeth' yn gofyn am newid deddfwriaeth sylfaenol. Er hyn, ein nod yw rhoi mwy o reolaeth i ACLlau dros waith datblygu mewn ardaloedd gwarchoddedig, fel y nodir ym mharagraff 3.29.
- 3.11 Caiff unrhyw ACLI sy'n pryderu ynghylch y defnydd o hawliau datblygu a ganiateir mewn ardaloedd nas gwarchodir ddefnyddio Cyfarwyddyd Erthygl 4 i'w tynnu'n ôl.

C2. Ydych chi'n cytuno y dylai hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer rhandiroedd gynnwys codi sied a thŷ gwydr ar un llain?

Sector	Crynodeb Ystadegol				
	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Heb ateb	Cyfanswm
Un o Asiantaethau'r Llywodraeth/Corff Arall sy'n rhan o'r Sector Cyhoeddus	3	0	0	1	4
Corff Proffesiynol/Grŵp Buddiant	11	0	3	0	14
Awdurdod Cynllunio Lleol	13	0	0	0	13
Y Sector Gwirfoddol	1	0	0	0	1
Unigolion preifat	27	2	2	0	31
Cyfanswm yr holl ymatebwyr	55	2	5	1	63



■ Cytuno ■ Anghytuno ■ Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno

Adolygiad ystadegol

3.12 O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn, roedd y mwyafrif (89% o'r rhai a atebodd) yn cytuno â'r cynnig y dylai hawliau datblygu a ganiateir gynnwys codi sied a thŷ gwydr ar un llain. Cafwyd cefnogaeth gref gan bob sector.

Themâu allweddol

3.13 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 2 fel a ganlyn:

- Lleisiwyd cryn gefnogaeth i'r cynnig, heb fawr ddim sylwadau pellach.
- Fel gyda chwestiwn 1, cyfeiriodd y rhai a gyflwynodd sylwadau at yr angen am amodau i leihau'r effaith. Roedd sylwadau cyffredin eraill yn ymwneud â maint y llain. Ystyrir y materion hyn yn fanylach yng nghwestiwn 4.

Trosolwg


- 3.14 Ar y cyfan, roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig a gwnaethant gyfeirio at yr angen i osod amodau ynglŷn â maint lleiniau a siediau/tai gwydr er mwyn rheoli'r effaith weledol. Roedd yr ymatebwyr o'r farn y byddai'r cynigion yn cynyddu eu mwynhad o'r safle a'u helpu i wneud gwell defnydd ohono drwy nodi bod sied yn ddefnyddiol ar gyfer storio offer ac y byddai tŷ gwydr yn helpu i dyfu cynnyrch. Cyfeiriodd rhai sylwadau hefyd at yr angen i reoli'r defnydd o ddeunyddiau ar gyfer eu hadeiladu. Ystyrir hyn yn fanylach fel rhan o'r dadansoddiad o gwestiwn 4.
- 3.15 Gofynnodd un ymatebydd (corff proffesiynol/grŵp buddiant) pam roedd y cynnig wedi'i gyfyngu i un sied ac un tŷ gwydr a pham nad oedd dwy sied yn cael eu caniatáu.

Ymateb y Llywodraeth

- 3.16 Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig y dylai'r hawliau datblygu a ganiateir gynnwys codi sied a thŷ gwydr ar un llain. Y rhesymeg dros y polisi yw bod angen sied i storio offer, tra gellir defnyddio tŷ gwydr i dyfu cynnyrch, gan sicrhau bod y defnydd mwyaf posibl yn cael ei wneud o'r rhandir. Byddai caniatáu i sied ychwanegol gael ei chodi yn lle tŷ gwydr ar lain o'r maint a gynigir yn cyfyngu ar y lle sydd ar gael ar gyfer y prif ddefnydd o'r rhandir h.y. ar gyfer tyfu cynnyrch. Byddai sied yn cefnogi ac yn hwyluso'r prif ddefnydd o'r tir o'i hamgylch ac ni fyddai'n lleihau ei ddefnyddioldeb.

C3. Os mai 'cytuno' oedd eich ateb i C2, a ydych chi'n cytuno na ddylai mesuriadau sied na thŷ gwydr a ganiateir gan y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir fod yn fwy na 2.5m (dyfnder) x 2.1m (lled) x 2.2m (uchder) (sef sied gardd neu dŷ gwydr domestig safonol 8 x 6)?

Sector	Crynodeb Ystadegol				Cyfanswm
	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Heb ateb	
Un o Asiantaethau'r Llywodraeth/Corff Arall sy'n rhan o'r Sector Cyhoeddus	3	0	0	1	4
Corff Proffesiynol/Grŵp Buddiant	6	5	3	0	14
Awdurdod Cynllunio Lleol	13	0	0	0	13
Y Sector Gwirfoddol	0	1	0	0	1
Unigolion preifat	18	9	3	1	31
Cyfanswm yr holl ymatebwyr	40	15	6	2	63



■ Cytuno ■ Anghytuno ■ Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno

Adolygiad ystadegol

- 3.17 O blith y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn, roedd y mwyafrif (65% o'r rhai a atebodd) yn cytuno na ddylai mesuriadau sied na thŷ gwydr a ganiateir gan y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir fod yn fwy na 2.5m (dyfnder) x 2.1m (lled) x 2.2m (uchder).
- 3.18 Roedd cefnogaeth i'r cynnig wedi'i chydbwyso'n agos gan y rhai a oedd yn ymateb ar ran corff proffesiynol/grŵp buddiant (roedd 42% yn cytuno, roedd 35% yn anghytuno, nid oedd 21% yn cytuno nac yn anghytuno).

Themâu allweddol

- 3.19 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 3 fel a ganlyn:
- Er bod y mesuriadau arfaethedig yn cael eu derbyn yn gyffredinol, roedd y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig, ar y cyfan, yn awyddus i'r mesuriadau gael eu cynyddu yn hytrach na'u lleihau.

Trosolwg

- 3.20 Ni chafwyd fawr ddim sylwadau gan y rhai a oedd yn cytuno â'r cynnig. Nododd un ymatebydd y byddai siediau o faint domestig yn sicrhau bod rhandiroedd yn cael eu defnyddio at ddibenion domestig yn hytrach nag at ddibenion cynhyrchu masnachol.
- 3.21 Un awdurdod cynllunio lleol gofynnodd a ddylid rheoli'r defnydd o ddeunyddiau hefyd er mwyn atal strwythurau brics mwy parhaol, y gall rhai eu galw'n sied, rhag cael eu hadeiladu ond byddent yn fwy anodd i'w symud petai'r defnydd o'r tir fel rhandir yn dod i ben. Lleisiwyd y farn hon gan Grŵp Rhandiroedd Cymunedol Taf hefyd a nododd y dylai strwythurau gael eu hadeiladu o bren yn bennaf gyda sylfeini brics neu goncrid yn unig.
- 3.22 Argymhellodd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol hefyd y dylid defnyddio amodau i reoli deunyddiau a chyfyngu ar waith datblygu ar dir Erthygl 1(5) er mwyn mynd i'r afael ag effeithiau cronol gwaith datblygu mewn ardaloedd dynodedig neu'n agos atynt. Awgrymwyd rheolaethau ar ddeunyddiau hefyd gan tri awdurdod cynllunio lleol.
- 3.23 Awgrymodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy hefyd y bydd yn bwysig rheoli lliw deunyddiau a ddefnyddir er mwyn osgoi cynlluniau lliw amhriodol ar safleoedd a leolir yn agos at adeilad rhestredig neu mewn ardal gadwraeth.
- 3.24 Nododd y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig, ymhlith pethau eraill, fod y mesuriadau yn rhy ragnodol (9 ymatebydd) neu, i'r gwrthwyneb, eu bod yn ormodol. Ni chafwyd unrhyw sylwadau gan y pedwar ymatebydd arall a oedd yn anghytuno â'r cynnig.


Ymateb y Llywodraeth

- 3.25 Cynigiodd yr ymgynghoriad y dylid pennu uchafswm maint ar gyfer y ddau fath o strwythur, sef na ddylent fod yn fwy na 2.5m (dyfnder) x 2.1m (lled) x 2.2m (uchder). O ailystyried, rydym o'r farn bod disgrifiad rhy ragnodol ynglŷn â'r lled/dyfnder, fel y nodir yn y papur ymgynghori, yn gyfyngol yn ddiangen. Credwn y byddai defnyddio 'arwynebedd llawr' fel mesur amgen yn rhoi mwy o hyblygrwydd ar gyfer strwythurau o wahanol siapiau a'i bod yn adlewyrchu dosbarthiadau eraill o ddatblygiad o fewn y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir. Yr uchafswm arwynebedd llawr a ganiateid ar gyfer strwythurau newydd fyddai 6 metr sgwâr, a geid o dalgrynnu'r mesuriadau gwreiddiol arfaethedig ar gyfer hyd/lled. Mae angen y mesur ar gyfer uchder fel y'i cynigir yn yr ymgynghoriad o hyd er mwyn lleihau effaith weledol y strwythurau arfaethedig.
- 3.26 Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt a wnaed gan un cynllunio lleol gofynnodd ynghylch effaith weledol bosibl strwythurau a godir gan ddefnyddio deunyddiau mwy parhaol os rhoddir y gorau i ddefnyddio'r tir. Fodd bynnag, mae eisoes gan ACLlau y pŵer o dan adran 215 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref i gymryd camau i'w gwneud yn ofynnol i dir gael ei lanhau pan fydd ei gyflwr yn amharu ar amwynder yr ardal.

- 3.27 At hynny, ar safleoedd sy'n eiddo i awdurdod lleol neu a reolir gan awdurdod lleol, gellir defnyddio cytundebau tenantiaeth i nodi ac, felly, reoli deunyddiau fesul safle.
- 3.28 Mewn ardaloedd gwarchodedig, h.y. tir Erthygl 1(5), mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y sylwadau a wnaed gan y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol a rhai ACLlau ynghylch yr angen am fwy o reolaeth. Felly, ni chaniateir gwaith datblygu ar dir Erthygl 1(5), tir ar Safle Treftadaeth y Byd na thir o fewn cwrtil adeilad rhestredig. Bydd hyn yn sicrhau bod ACLlau yn cael cyfle i ystyried pa mor briodol yw datblygiadau mewn ardaloedd gwarchodedig, gan barhau i allu ychwanegu amodau, megis ynglŷn â'r defnydd o ddeunyddiau, er mwyn gwneud datblygiadau yn dderbyniol o ran amgylchiadau penodol.
- 3.29 Fodd bynnag, mewn ardaloedd nas gwarchodir, o ystyried cyflwr a golwg cyffredinol presennol rhandiroedd a fydd eisoes yn cynnwys strwythurau o wahanol siapiau, meintiau a deunyddiau, byddai unrhyw ddull o gyfyngu ar y math o ddeunyddiau neu liw deunyddiau drwy ddefnyddio hawliau datblygu a ganiateir yn rhy feichus ac yn arwain at or-reoleiddio heb fawr ddim budd i'r amgylchedd ehangach.
- 3.30 O ran y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig, rydym yn fodlon bod y maint a gynigir yn adlewyrchu sied gardd neu dŷ gwydr domestig nodweddiadol ar gyfer tyfu domestig, a gefnogir gan y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r cwestiwn. Rydym yn fodlon bod y maint a gynigir yn sicrhau cydbwysedd priodol rhwng rhoi hyblygrwydd i dyfwyr cymunedol godi strwythurau a all ategu'r defnydd o'r tir ar gyfer tyfu a'r angen i ddiogelu man tyfu a lleihau'r effaith weledol ehangach.

C4. Er mwyn rheoli'r effaith weledol a sicrhau bod lle i dyfu, ydych chi'n cytuno y dylid cyfyngu ar nifer y siediau a'r tai gwydr i un sied ac un tŷ gwydr ar gyfer pob hanner llain (125 metr sgwâr)?

Sector	Crynodeb Ystadegol				
	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Heb ateb	Cyfanswm
Un o Asiantaethau'r Llywodraeth/Corff Arall sy'n rhan o'r Sector Cyhoeddus	2	0	1	1	4
Corff Proffesiynol/Grŵp Buddiant	8	4	2	0	14
Awdurdod Cynllunio Lleol	11	2	0	0	13
Y Sector Gwirfoddol	1	0	0	0	1
Unigolion preifat	22	7	2	0	31
Cyfanswm yr holl ymatebwyr	44	13	5	1	63



■ Cytuno ■ Anghytuno ■ Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno

Adolygiad ystadegol

3.31 O blith y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn, roedd y mwyafrif (71% o'r rhai a atebodd) yn cytuno y dylid cyfyngu ar nifer y siediau a'r tai gwydr i un sied ac un tŷ gwydr ar gyfer pob hanner llain, a fesurir fel 125 metr sgwâr.

Themâu allweddol

- Er bod cryn gefnogaeth i'r mesuriadau arfaethedig, nododd yr ymatebwyr yn glir y gall maint lleiniau amrywio. Mae lleiniau llai o faint yn gyffredin, yn arbennig mewn ardaloedd trefol.
- Roedd y rhai a oedd yn cytuno â'r cynnig o'r farn y byddai un strwythur fesul llain yn fwy priodol, tra bod y rhai a oedd am gael mwy o ryddid o'r farn y dylai fod ganddynt

yr hyblygrwydd i godi'r hyn roedd ei angen ar gyfer pob llain unigol, megis sied fwy o faint, neu sawl sied neu dŷ gwydr, ac ati.

Trosolwg

- 3.32 Prin oedd y sylwadau a gafwyd gan y rhai a oedd yn cytuno â'r cynnig. Roedd Cymdeithas Rhandiroedd Victoria Road yn cytuno â'r cynnig a nododd y byddai'n ddigonol ac yn caniatáu digon o le i dyfu cynnyrch ar yr un pryd. Roedd Grŵp Rhandiroedd Cymunedol Taf yn cytuno hefyd a nododd y dylai strwythurau gynorthwyo'r broses o dyfu cynnyrch yn hytrach na bod yn brif ddull cynhyrchu.
- 3.33 Roedd y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig (13 o ymatebwyr), gan gynnwys Cyngor Sir Fynwy, o'r farn y byddai un sied ac un tŷ gwydr fesul llain lawn (250 metr sgwâr) yn fwy priodol er mwyn lleihau effaith weledol gronnol yr adeiladau.
- 3.34 Fodd bynnag, y consensws o'r sylwadau oedd ei bod yn rhesymol cael sied a thŷ gwydr er mwyn cynyddu mwynhad o randir a sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl ohono ac y dylai cyfyngiadau'r hawliau datblygu a ganiateir ymwneud â maint y llain a maint y sied er mwyn rheoli'r effaith weledol.
- 3.35 Mae llawer o'r sylwadau a gafwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn (a chwestiynau 2 a 5) yn ymwneud â maint lleiniau. Nododd yr ymatebwyr yn glir y gall maint lleiniau amrywio ac mai lleiniau llai o faint sydd fwyaf cyffredin, yn arbennig mewn ardaloedd trefol lle y gall y lle sydd ar gael fod yn gyfyngedig. Mae'n amlwg o'r ymatebion fod maint lleiniau rhandiroedd yn amrywio o safle i safle ac nad oes unrhyw faint safonol yng Nghymru.
- 3.36 Mae tystiolaeth o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn awgrymu bod rhai rhandiroedd wedi'u rhannu'n lleiniau llai o faint nag a fwriadwyd. Awgrymwyd hefyd, ar rai safleoedd, y dylai defnyddwyr newydd gymryd lleiniau bach i ddechrau ac, wedyn, y gallent gymryd rhagor o leiniau yn ddiweddarach.
- 3.37 Awgrymodd awdurdod cynllunio lleol, pan fo lleiniau llai o faint (h.y. chwarter llain) yn cael eu rhentu, y dylai fod darpariaeth i ganiatáu un strwythur – naill ai sied neu dŷ gwydr. Mae'n awgrymu bod angen i unrhyw ddatblygiad a ganiateir hefyd gynnwys darparu lleiniau llai o faint (chwarter llain) er mwyn osgoi amwysedd.
- 3.38 Nododd Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol y byddai graddfa symudol yn seiliedig ar faint y safle yn fwy priodol gydag un sied neu dŷ gwydr yn cael ei chaniatáu/ganiatáu ar rhandiroedd ac mewn gerddi cymunedol sy'n mesur 83 metr sgwâr (traean o faint llain), dau strwythur ar safleoedd sy'n mesur 125 metr sgwâr a sied safonol a thŷ gwydr mwy o faint ar safleoedd sy'n mesur 250 metr sgwâr.

Ymateb y Llywodraeth


- 3.39 Rydym yn cydnabod yr awgrym gan rai ymatebwyr y dylai'r hawliau datblygu a ganiateir fod yn gymwys ar leiniau mwy o faint nag a gynigiwyd. Er y gall rhai safleoedd gynnwys lleiniau mwy o faint, mae'r dystiolaeth o'r ymgynghoriad yn awgrymu nad yw hynny'n wir mewn llawer o leoliadau, gan gynnwys ardaloedd trefol. Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gafwyd o'r mwyafrif o'r ymatebion, mae'n debygol y byddai cyfyngu'r hawliau datblygu a ganiateir i leiniau mwy o faint yn hepgor cyfran

sylweddol o randiroedd yng Nghymru, a fyddai'n tanseilio'r nod o gyflwyno caniatâd cynllunio cenedlaethol.

- 3.40 Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd, rydym yn cytuno y gallai graddfa symudol fod yn fwy priodol er mwyn cefnogi'r defnydd o randiroedd llai o faint a sicrhau y gall y rhai â lleiniau llai o faint gael budd o'r hawliau datblygu a ganiateir.
- 3.41 Mae gwaith dadansoddi yn awgrymu y gall 'chwarter llain', h.y. hanner y maint a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad (62 metr sgwâr) gynnwys un strwythur fel y cynigir gan ymatebwyr a pharhau i gadw cyfran sylweddol o'r llain i'w defnyddio i dyfu cynnyrch ar yr un pryd. Ni fyddai effaith weledol lleiniau llai o faint cyfagos ag un strwythur a godwyd gan ddefnyddio'r hawliau datblygu a ganiateir yn fwy nag effaith weledol lleiniau mwy o faint cyfagos â dau strwythur.
- 3.42 Bwriedir cyflwyno darpariaethau a fydd yn caniatáu i un sied ac un tŷ gwydr gael ei chodi/godi (fel y nodwyd yn wreiddiol yn yr ymgynghoriad) ar leiniau ag arwynebedd o 125 metr sgwâr neu fwy. At hynny, caniateir i sied neu dŷ gwydr gael ei chodi/godi ar leiniau llai o faint sydd ag arwynebedd o 62 metr sgwâr o leiaf. Yn ein barn ni, ni fyddai'r dull hwn o weithredu yn arwain at godi nifer mawr o strwythurau ar safle ac ni fyddai'n cael effaith weledol andwyol gronnol.
- 3.43 Rydym yn fodlon nad yw effeithiau cynllunio mabwysiadu'r dull hwn o weithredu yn fwy na'r hyn a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad ar gyfer lleiniau mwy o faint.
- 3.44 Ni fydd lleiniau sy'n mesur llai na 62 metr sgwâr yn cael budd o'r hawliau datblygu a ganiateir i gadw digon o le i dyfu cynnyrch ar y llain a ddyrannwyd iddynt ac atal clystyru neu orddatblygu.

C5. Ydych chi'n cytuno y dylid diffinio hanner llain fel llain heb fod yn fwy na 125 metr sgwâr?

Sector	Crynodeb Ystadegol				
	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Heb ateb	Cyfanswm
Un o Asiantaethau'r Llywodraeth/Corff Arall sy'n rhan o'r Sector Cyhoeddus	2	0	1	1	4
Corff Proffesiynol/Grŵp Buddiant	10	2	1	1	14
Awdurdod Cynllunio Lleol	12	1	0	0	13
Y Sector Gwirfoddol	0	1	0	0	1
Unigolion preifat	26	4	0	1	31
Cyfanswm yr holl ymatebwyr	50	8	2	3	63



■ Cytuno ■ Anghytuno ■ Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno

Adolygiad ystadegol

3.45 O blith y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn, roedd y mwyafrif (83% o'r rhai a atebodd) yn cytuno y dylid diffinio hanner llain fel un nad yw'n mesur mwy na 125 metr sgwâr. Cafwyd cefnogaeth i'r cynnig hwn gan bob sector.

Themâu allweddol

- Roedd llawer o'r pwyntiau a godwyd mewn ymateb i gwestiwn 4 yr un mor berthnasol i gwestiwn 5 o ran maint lleiniau a nifer y strwythurau.
- Mae'n amlwg bod yr ymatebwyr yn derbyn mewn egwyddor fod hanner llain, yn draddodiadol, yn mesur tua 125 metr sgwâr ond gwnaed rhai sylwadau y gall maint lleiniau amrywio'n fawr rhwng safleoedd ledled Cymru.

Trosolwg

- 3.46 Cyfeiriodd llawer o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn at y sylwadau a wnaed ganddynt i gwestiwn 4. Nododd y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig (8 ymatebydd) fod lleiniau unigol ar eu safleoedd yn llai na'r hyn a gynigiwyd, tra awgrymodd eraill, i'r gwrthwyneb, fod lleiniau unigol ar eu safleoedd yn fwy na'r hyn a gynigiwyd. Fodd bynnag, mae cryn gonsensws bod y ffigur o 125 metr sgwâr yn adlewyrchu'r traddodiad mwy sefydledig o fesur rhandiroedd yn y Deyrnas Unedig.

Ymateb y Llywodraeth

- 3.47 Fel y nodwyd ym mharagraff 3.43, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu bwrw ymlaen â'r hawliau datblygu a ganiateir newydd a fydd yn caniatáu i un sied neu dŷ gwydr gael ei chodi/godi ar leiniau sy'n mesur o leiaf 62 metr sgwâr ac i sied a thŷ gwydr gael ei chodi/godi ar leiniau sy'n mesur 125 metr sgwâr neu fwy, fel y cynigiwyd yn yr ymgynghoriad.

Cwestiynau eraill a Ofynnwyd

- C. Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol?
- C. Esboniwch sut rydych yn credu y gellid llunio neu newid y cynigion arfaethedig er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, heb unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Trosolwg

- 3.48 Yn unol â Safonau'r Gymraeg, mae'n rhaid i bob un o ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru gynnwys y cwestiynau uchod mewn perthynas â'r Gymraeg.
- 3.49 Ni wnaed unrhyw sylwadau negyddol gan yr ymatebwyr mewn perthynas ag unrhyw effaith bosibl ar y Gymraeg o ganlyniad i'r cynnig i gyflwyno hawliau datblygu a ganiateir i ddeiliaid rhandiroedd.
- 3.50 Nid atebodd y mwyafrif o'r ymatebwyr y cwestiynau neu roeddent yn amau a oedd y cwestiynau yn berthnasol i bwnc yr ymgynghoriad.

Ymateb y Llywodraeth

- 3.51 Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon na fydd bwrw ymlaen â'r hawliau datblygu a ganiateir fel y cynigiwyd yn effeithio ar y Gymraeg.

- C. **Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech godi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym ni wedi ymdrin â nhw yn benodol, defnyddiwch y lle isod i'w nodi**

- 3.52 Ar ddiwedd yr ymgynghoriad, gwahoddwyd ymatebwyr i gyflwyno sylwadau ynghylch unrhyw faterion cysylltiedig nad ymdriniwyd â nhw gan yr ymgynghoriad. Ceir crynodeb o'r materion a godwyd yn gyson isod.

Twnelau Polythen

- 3.53 Nododd sawl ymatebydd a gyflwynodd sylwadau fel aelodau o'r cyhoedd nad oedd unrhyw gyfeiriad at dwnelau polythen yn yr ymgynghoriad ac roeddent yn amau a fyddent yn cael eu caniatáu o dan y cynigion. Nododd y rhai a oedd o blaid cyflwyno hawliau datblygu a ganiateir fod twnelau polythen gryn dipyn yn rhatach na sied neu dŷ gwydr a'u bod yn aml yn fwy priodol ar gyfer yr amodau tyfu yng Nghymru.
- 3.54 Yn yr ymgynghoriad, ni wnaed unrhyw gynnig penodol mewn perthynas â thwnelau polythen. Fodd bynnag, nododd yr ymgynghoriad ei bod yn bosibl nad ystyrir bod twnelau polythen yn ddatblygiad. Mae p'un a yw twnelau polythen plastig tryloyw yn

ddatblygiad gweithredol, sy'n golygu y bydd angen cael caniatâd cynllunio ar eu cyfer, yn aml yn fater o ffaith a graddau i'w asesu gan ACLlau fesul achos. Mae llawer yn dibynnu ar egwyddorion sy'n ymwneud â maint a graddfa'r twnelau polythen, a ydynt yn strwythurau parhaol, a ellir eu symud ac i ba raddau y maent wedi'u cysylltu â'r tir.

- 3.55 Er hyn, rhoddir eglurhad, petai twnnel polythen yn gyfystyr â datblygiad a'i fod yn bodloni'r cyfyngiadau a ragnodir yn yr hawliad datblygiad a ganiateir newydd, y byddai'n cael ei ystyried yn ddatblygiad a ganiateir ac, felly, y byddai'n cael caniatâd cynllunio'n awtomatig fel sy'n digwydd yn achos siediau a thai gwydr. Mae strwythurau o'r fath yn cael yr un effaith o ran tyfu cynnyrch ac effeithiau cynllunio tebyg ac maent yn nodweddiadol o fannau tyfu cymunedol.

Diffiniad o randir

- 3.56 Nododd rhai ymatebwyr nad oedd yr ymgynghoriad yn cynnwys diffiniad o randir.
- 3.57 Nododd Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol nad yw'r diffiniad traddodiadol o 'randiroedd' yn ddilys mwyach yn y Gymru fodern, lle y ceir mathau gwahanol o brosiectau tyfu bwyd cymunedol a lle mae prosiectau rhandiroedd a phrosiectau garddio a arweinir gan y gymuned yn edrych yn debyg iawn.
- 3.58 Mae'n amlwg, o ran cynllunio defnydd tir, fod prosiectau rhandiroedd traddodiadol a phrosiectau garddio a arweinir gan y gymuned yn union debyg. Yn y ddau achos, ar gyfer garddwriaeth y mae'r prif ddefnydd o dir, h.y. cynnyrch megis planhigion, llyisiau, perlyisiau ac ati, a dyfir gan unigolion neu fel rhan o grŵp cymunedol ehangach nad yw at ddibenion masnachol.
- 3.59 Bwriad Llywodraeth Cymru o'r dechrau oedd y byddai gan yr hawliau datblygu a ganiateir y cwmpas ehangaf posibl er mwyn annog a chefnogi'r holl wahanol fathau o brosiectau tyfu bwyd cymunedol. Adlewyrchir hyn yn y ddeddfwriaeth.

Safleoedd sy'n mesur mwy na 250 metr sgwâr

- 3.60 Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at yr angen am fwy o hawliau datblygu a ganiateir ar leiniau sy'n mesur mwy na 250 metr sgwâr. Ar yr adeg hon, mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar gyflwyno hawliau datblygu a ganiateir ar leiniau unigol llai o faint a ddefnyddir at ddibenion tyfu personol. Rydym yn fodlon bod y maint a gynigir yn sicrhau cydbwysedd priodol rhwng rhoi hyblygrwydd i dyfwyr cymunedol godi strwythurau a all ategu'r defnydd o'r tir at ddibenion tyfu lleol ar raddfa fach ac unrhyw effeithiau gweledol ac amgylcheddol ehangach sy'n gysylltiedig â datblygiadau.

Gweithgareddau sy'n ymwneud â pherygl llifogydd

- 3.61 Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi gofyn inni beidio ag ymestyn gwaith datblygu ar randiroedd i gynnwys strwythurau o fewn 8m i brif afon ddilanw, strwythur amddiffyn rhag llifogydd na chwlfert ar yr afon honno, nac o fewn 16m i brif afon lanwol, strwythur amddiffyn rhag llifogydd na chwlfert. Diben hyn yw sicrhau na fydd unrhyw strwythurau newydd yn amharu ar ei allu i gyrraedd cwrs dŵr/strwythur amddiffyn rhag llifogydd a'i gynnal a'i gadw.
- 3.62 Mae newid yn yr hinsawdd yn golygu bod angen inni fod yn fwy gofalus byth wrth ystyried cyflwyno hawliau datblygu a ganiateir newydd, o gofio natur eang y caniatâd

cynllunio a roddir ganddynt. Pwysleisiodd y llifogydd a welwyd ym mis Chwefror 2020 fod angen i gyrsiau dŵr ac amddiffynfeydd rhag llifogydd fod yn hygyrch bob amser.

- 3.63 Felly, cafodd y cais a wnaed gan CNC ei gynnwys yn y ddarpariaeth er mwyn sicrhau na fydd datblygiadau a ganiateir gan yr hawliau datblygu a ganiateir hyn yn amharu ar y gwaith o gynnal a chadw cwrs dŵr/strwythur amddiffyn rhag llifogydd.
- 3.64 Pe gallai datblygiad effeithio ar strwythur amddiffyn rhag llifogydd, cais cynllunio yw'r dull mwyaf priodol o asesu'r effaith o hyd, mewn ymgynghoriad â CNC. Efallai y bydd angen cael Trwydded Gweithgaredd Perygl Llifogydd gan CNC ar gyfer datblygiad o'r fath hefyd.

4. Y camau nesaf

- 4.1 Caiff Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2020 ei gyflwyno gerbron Senedd Cymru cyn hir.
- 4.2 Caiff y ffaith bod y ddeddfwriaeth yn ei chyflwyno ei chyhoeddi drwy anfon llythyr 'Annwyl Brif Swyddog Cynllunio', a gaiff ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru hefyd.
- 4.3 Caiff canllawiau eu cynnwys hefyd fel rhan o'r ddogfen "Canllawiau i dyfwyr a grwpiau tyfu", a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru ar ddiwedd y flwyddyn.

5. Rhestr ymatebwyr

Un o Asiantaethau'r Llywodraeth/Corff Arall sy'n rhan o'r Sector Cyhoeddus	
Cyfoeth Naturiol Cymru	Cyngor Tref Aberystwyth
Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd yng Nghymru	Gofynnodd un ymatebydd am gael aros yn ddiennw
Cyfanswm – 4	Canran – 6%

Corff Proffesiynol/Grŵp Buddiant	
Cymdeithas Rhandiroedd Biwmares	Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol
Cymdeithas Rhandiroedd Gerrett's Hill	Un Llais Cymru
Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol	Grŵp Rhandiroedd Cymunedol Taf
Cymdeithas Rhandiroedd Victoria Road	Cymdeithas Rhandiroedd Ystum Taf
Cymdeithas Rhandiroedd Sully Terrace	<i>gofynnodd pump arall am gael aros yn ddiennw</i>
Cyfanswm – 14	Canran – 22%

Awdurdod cynllunio lleol	
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Cyngor Sir Fynwy	
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	<i>gofynnodd saith arall am gael aros yn ddiennw</i>
Cyfanswm – 13	Canran – 20%

Y sector Gwirfoddol	
Youth Factor V	
Cyfanswm – 1	Canran – 2%

Unigolion Preifat	
Cafwyd 31 o ymatebion gan unigolyn.	
Cyfanswm – 31	Canran – 49%